# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 15/9/26 |
| **Pwnc:** | Penderfyniad ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr posibl yn Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Alun Roberts | Aelod portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Christian Branch<br><br>Andy Godber | Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad o ganlyniad i'r ymgynghoriad, cyn eu hargymell i'r Pwyllgor Gwaith.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1. Nad yw'r Cyngor yn mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr o ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector twristiaeth ar hyn o bryd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau effaith
2. Bydd y Cyngor yn monitro, adolygu ac yn ystyried tystiolaeth effaith yr Ardoll Ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a ddewisodd mabwysiadu'r Ardoll, ac unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol
3. Bydd y Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y broses ymgynghori ddiweddar. Dylid rhannu llythyr o'r fath at Lywodraeth Cymru gyda’r holl aelodau etholedig.

## 4. Sut mae’r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Cydnabyddir bod yr Economi yn un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor, sy'n cynnwys gweithio gyda'r sector twristiaeth i fanteisio ar boblogrwydd yr ynys fel cyrchfan.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai’r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Adborth ar yr ymgynghoriad
2. Effeithiau andwyol posibl
3. Canlyniadau cadarnhaol posibl
4. Risgiau a heriau disgwyliedig
5. Heriau, newidiadau ac ansicrwydd ehangach yn ymwneud ar economi ymwelwyr

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Derbyniodd Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 18 Hydref. Mae’r Ddeddf yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol godi ardoll (yr ardoll) ar ymwelwyr dros nos sy’n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Mae’r ardoll ymwelwyr yn cynnwys ffi ychwanegol i’w dalu wrth aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru.

Bydd yr arian a godir drwy’r ardoll yn cael ei glustnodi a’i ddefnyddio i wella twristiaeth leol. Gall yr ardoll ymwelwyr helpu i:

a. gynnal cyfleusterau a seilwaith lleol
b. gwarchod tirluniau hardd Cymru
c. sicrhau bod cymunedau’n parhau i groesawu ymwelwyr yn ogystal â chynnal yr hyn sy’n gwneud yr ardal yn arbennig

Gall awdurdodau lleol benderfynu sut i ddefnyddio unrhyw arian a godir o’r ardoll ymwelwyr er mwyn cefnogi mentrau twristiaeth a rheoli cyrchfan.

Y bwriad yw y gallai’r arian hwn dalu costau cysylltiedig â derbyn ymwelwyr, megis glanhau strydoedd, casglu gwastraff, cynnal atyniadau naturiol a diwylliannol, yn ogystal â chefnogi a gwella isadeiledd ar gyfer ymwelwyr megis toiledau, llwybrau troed a chanolfannau ymwelwyr.

Gall awdurdodau lleol ddewis os ydynt eisiau cyflwyno’r ardoll ymwelwyr yn eu hardal. Byddant yn gwneud penderfyniad ar ôl ymgynghori gyda phreswylwyr, busnesau ac ymwelwyr ac asesu ei effaith. Golyga hyn y codir yr ardoll dim ond yn yr ardaloedd hynny lle mae cymunedau wedi penderfynu mai dyna’r dewis cywir iddyn nhw.

Mae'r broses gwneud penderfyniad yn cael ei arwain gan yr ymgynghoriad a'r asesiadau ar yr effaith ar yr economi a chydraddoldeb.

**Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Gwnaethom ystyried a allai'r ardoll ymwelwyr effeithio'n annheg ar bobl oherwydd eu hoed, eu hanabledd, eu rhyw, eu hil, eu crefydd neu eu cred, eu cyfeiriadedd rhywiol neu ailbennu rhywiol, eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil, ar eu beichiogrwydd neu famolaeth. Gwnaethom hefyd ystyried effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg ac ar bobl all brofi anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Beth wnaethom ddysgu**

- Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae'r gyfraith yn cynnwys mesurau diogelu, eithriadau ac ad-daliadau i leihau'r risg o effeithiau annheg.
- Efallai y gall ymwelwyr anabl sydd angen teithio gyda char hawlio ad-daliad mewn rhai amgylchiadau.
- Byddai plant a phobl ifanc sy'n aros mewn llety cost isel yn cael eu heithrio o'r ardoll. Fodd bynnag, gwnaeth yr ymgynghoriad amlygu risg y byddai'r gyfradd sylfaenol i'w gweithredu ar draws pob math o lety yn cynnwys codi ffi ar blant, ac mae'n bosibl y gall hynny effeithio'n negyddol ar deuluoedd incwm is.
- Disgwylir na fydd yr effaith ehangach ar swyddi neu wariant ymwelwyr yn sylweddol, ac mae posibilrwydd y byddai'n cael ei leihau drwy ail-fuddsoddi'r arian yn lleol.
- Mae Ynys Môn yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, ac mae gan weithwyr yn y diwydiant twristiaeth sgiliau uchel yn yr iaith Gymraeg. Os cyflwynir yr ardoll, bydd cyfle i ddefnyddio ychydig o'r incwm i gefnogi gwasanaethau ymwelwyr cyfrwng Cymraeg, diwylliant leol, arwyddion, digwyddiadau a seilwaith mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan dwristiaeth.

**Casgliad cyffredinol**

Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg na materion economaidd-gymdeithasol, yn seiliedig ar y wybodaeth a adolygwyd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i fonitro effeithiau dros amser, a sicrhau bod unrhyw arian a godir yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n elwa trigolion, ymwelwyr, busnesau lleol a chymunedau Cymraeg.

**Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar yr Economi**

**Beth wnaethom ddysgu**

- Ni ddisgwylir llawer o effaith ar yr economi.
- Mae'r model yn awgrymu y gallai'r ardoll arwain at ostyngiad bach iawn yng ngalw ymwelwyr, ond gwneir yn iawn am hyn drwy fuddsoddiadau lleol wedi'u hariannu drwy'r ardoll. Galli'r effaith amrywio o fod ychydig yn negyddol i eithaf cadarnhaol, yn dibynnu ar y rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd.

- Mae'r dadansoddiad craidd yn rhagweld y gallai'r ardoll godi mwy na £1.2-£1.5 miliwn bob blwyddyn ar gyfer Ynys Môn, ac eithrio TAW ac ar ôl costau gweinyddol Llywodraeth Cymru. Byddai'r incwm yn darparu ffynhonnell ariannu gadarn ar gyfer prosiectau a gwasanaethau sy'n cefnogi trigolion, ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol.
- Mae'r effaith ar swyddi a'r economi ehangach yn gyfyngedig iawn. Dan y senarios craidd, mae'r effaith yn gymesur â llai na 0.1% o gyfanswm cyflogaeth Ynys Môn, ac oddeutu -0.01% o economi'r ynys. Dylid hefyd trin y ffigyrau'n bwyllog oherwydd mae data ymwelwyr lleol yn ansicr ac mae ffynonellau data gwahanol yn cynnig rhagdybiaethau gwahanol.

**Casgliad cyffredinol**

Yn gryno, mae'r asesiad yn dangos mai ychydig iawn o risgiau economaidd sydd ynghlwm â'r Ardoll Ymwelwyr, ac y byddai'n creu incwm newydd i'w fuddsoddi yn economi ymwelwyr Ynys Môn. Byddai'r effaith terfynol yn dibynnu ar sut y gweithredir yr ardoll, sut mae busnesau'n ymateb, a pa mor effeithiol y defnyddir y cyllid i wella profiad ymwelwyr a rheoli effeithiau lleol.

Mae'r Asesiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb wedi amlygu amrywiaeth o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghlwm â'r cynnig. Er bod ymatebion yr ymgynghoriad yn dangos pryder sylweddol mewn perthynas ag effeithiau andwyol posibl, yn enwedig ar y sector twristiaeth, dylid ystyried y safbwyntiau hyn ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Asesiadau, sydd dal yn arfarniad dilys o'r effeithiau a'r cyfleoedd posibl a all godi drwy weithredu'r ardoll.

Mae sawl ffactor yn cynnwys effaith gynyddol yr Ardoll ar fusnesau sydd eisoes yn teimlo effaith yr hinsawdd economaidd bresennol, y rheol 182 ar lety hunan-arlwyo a'r lefel TAW 20%.  Ym marn yr ymatebwyr, mae'r ffactorau cynyddol hyn yn fwy na'r effeithiau cadarnhaol a welir o ran mwy o fuddsoddiad mewn gwaith rheoli cyrchfan, fyddai'n deillio o gyflwyno'r Ardoll.

**Y Broses Ymgynghori**

Cynhaliwyd proses ymgynghori gyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn a hynny drwy arolwg ar-lein oedd yn dechrau ar 15 Mai 2026 (yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn), ac a ddaeth i ben ar 13 Gorffennaf 2026.

Yn ychwanegol, cynhaliwyd 6 sesiwn wyneb yn wyneb yn:

a. Llangefni, 15 Mehefin 2026
b. Biwmares, 17 Mehefin 2026
c. Niwbwrch, 24 Mehefin 2026
d. Caergybi, 29 Mehefin 2026
e. Porthaethwy, 1 Gorffennaf 2026
f. Amlwch, 6 Gorffennaf 2026

Cynhaliwyd un sesiwn yn benodol ar gyfer y sector busnes ar y cyd ag Awdurdod Cyllid Cymru yn Llangefni ar 22 Mehefin 2026.


Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori (fel sy'n cael ei eirioli gan Lywodraeth Cymru). Maent yn cynnwys:

a. Mae'n rhaid ymgynghori ar gam ffurfiannol
b. Mae'n rhaid darparu digon o wybodaeth er mwyn gallu ystyried ymatebion gyda deallusrwydd a gall gynnwys asesiad o'r effaith ar yr economi
c. Mae'n rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb
d. Mae'n rhaid i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ystyried adborth i'r ymgynghoriad.

**Canfyddiadau'r Ymgynghoriad**
Derbyniodd y Cyngor 2,098 ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein. Roedd adborth a gafodd ei ddarparu yn ystod sesiynau wyneb yn wyneb hefyd ynghlwm â'r ymatebion hyn.

Mae gwrthwynebiad i'r Ardoll Ymwelwyr yn gryf, gyda 1,482 (70.8%) o'r holl ymatebwyr yn gwrthwynebu, neu'n dueddol o wrthwynebu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, tra bo 525 (25.1%) yn cefnogi, neu'n dueddol o'i gefnogi.

Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:




(roedd ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un disgrifiad, felly mae cyfanswm y carfanau'n fwy na nifer yr ymatebion).

Roedd y gwrthwynebiad yn erbyn mabwysiadu'r Ardoll yn gryf ymhlith gweithwyr ym maes twristiaeth, perchnogion/rheolwyr busnes ac ymwelwyr. Roedd preswylwyr yn fwy amhendant, ond roedd y gwrthwynebiad o 58% dal yn fwy na'r gefnogaeth.
Roedd ymatebion yn ymestyn ledled yr Ynys, gyda mwy o ymatebion yn deillio o'r prif drefi a chymunedau arfordirol. Cyflwynwyd oddeutu 5.1% o ymatebion drwy'r holiadur iaith Gymraeg. Roedd yr ymgynghoriad yn un hunan-ddewisol yn hytrach na chynrychioli ystadegau, felly gellid darllen y dystiolaeth fel tystiolaeth gan randdeiliaid yn hytrach nag arolwg poblogaeth.

Roedd yn amlwg fod angen mwy o adnoddau i Reoli Cyrchfannau er mwyn creu effaith wirioneddol mewn cymunedau a gwella'r cynnig sydd ar gael gan Ynys Môn mewn perthynas â chynnal effaith gadarnhaol twristiaeth. Fodd bynnag, ni welwyd y >£1.5 miliwn y gellid ei greu drwy'r Ardoll fel swm digonol i leddfu effeithiau negyddol posibl yr Ardoll.

**Crynodeb o'r Gwrthwynebiad**

a. Roedd gwrthwynebu yn canolbwyntio'n bennaf ar y risg bosibl i fusnesau bach a thymhorol, y canran uchel o lety hunan-arlwyo yn Ynys Môn a'r rheol 182 (sy'n berthnasol i eiddo hunan-arlwyo, lle mae'n rhaid iddynt fod ar gael am isafswm o 182 noson y flwyddyn er mwyn cymhwyso ar gyfer cyfraddau busnes yn hytrach na'r dreth gyngor), a'r trothwy TAW 20%.
b. Codwyd pryderon am ddiffyg data clir i ddangos posibilrwydd yr Ardoll i ddarparu incwm ar lefel fyddai'n gwella'r gwaith o reoli cyrchfan. Teimlwyd y dylai'r cofrestriad mandadol fod mewn grym cyn ystyried Ardoll, oherwydd byddai hyn yn rhoi darlun mwy clir o'r refeniw posibl.
c. Cymhlethdod gweinyddol a'r ddibyniaeth ar y busnes i weithredu fel 'banciwr' ar gyfer yr ardoll heb unrhyw iawn-dal ariannol.
d. Pryderon dros y trethiad ar blant ac effaith hyn ar deuluoedd sydd ar lai o incwm.
e. Amlygwyd costau uwch ar gyfer ymwelwyr o ganlyniad i lai o gystadleuaeth yn erbyn cyrchfannau ar y tir mawr neu gyrchfannau eraill, a'r gostyngiad posibl yn hyd yr arosiadau a gwariant cyffredinol.
f. Codwyd pryder na fyddai refeniw ychwanegol yn cael ei wario ar wasanaethau a gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o reoli cyrchfan, ac na fyddai'r arian yn creu buddion.

**Crynodeb o'r Cymorth**

a. Gwerthfawrogir yr heriau sy'n wynebu Ynys Môn o safbwynt pwysau twristiaeth. Roedd cefnogaeth glir am yr angen am refeniw ychwanegol i gefnogi'r gwaith o reoli cyrchfan ac i leihau effeithiau gor-dwristiaeth ar y safleoedd.
b. Roedd cefnogaeth yn canolbwyntio ar yr egwyddor fod ymwelwyr yn cyfrannu at bwysau lleol ac y dylent wneud cyfraniad rhesymol at gynnal a chadw ardaloedd cyhoeddus, seilwaith ymwelwyr, asedau diwylliannol a threftadaeth, gwarchod yr amgylchedd a gwasanaethau lleol.
c. Roedd cymorth ar gyfer darparu gwelliannau i reoli cyrchfan fyddai'n elwa preswylwyr ac ymwelwyr yn bwysig iawn, a chytunwyd y dylid rheoli hyn drwy bartneriaeth gyda'r Fforwm Ardal Ymwelwyr allanol.
d. Amlygwyd cyfleoedd i ddarparu gwelliannau i gyrchfannau seiliedig yn y gymuned.

**Crynodeb o Dir Cyffredin**

a. Roedd cefnogwyr a gwrthwynebwyr yn amlygu'r angen am dryloywder, eithriadau teg, costau gweinyddol isel a chanlyniadau lleol gweladwy.

**Casgliadau'r Broses Ymgynghori**

- Mae'r sector ymwelwyr yn rhan annatod o economi'r Ynys, yn cefnogi prif atyniadau, llety, busnesau bwyd a manwerthu. Mae'r Ynys yn un o'r ardaloedd hynny yn y Deyrnas Unedig sydd fwyaf dibynnol ar dwristiaeth.

- Mae'n amlwg fod effaith cyfyngiadau ariannol a deddfwriaethol eraill yn cael effaith ar gymorth leol ar gyfer cyflwyno Ardoll Ymwelwyr.

- Er y cydnabyddir fod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer rheoli cyrchfan er mwyn bod mewn sefyllfa gryf, byddai effaith treth ychwanegol yn ormod yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Mae'r Adroddiad llawn ar yr Ymgynghoriad ar gael yn Atodiad A.

**Rhesymau Dros yr Argymhellion**

Mae'r Cyngor eisiau mabwysiadu dull rhagweithiol mewn perthynas â chanfyddiadau'r broses ymgynghori.
Byddwn yn ceisio darparu'r canlynol er mwyn gwella dealltwriaeth am y goblygiadau ymarferol o gyflwyno Ardoll posibl yn y dyfodol o ystyried y gwahaniaeth sylweddol mewn agwedd, ac er mwyn gwella cyfleoedd i Reoli Cyrchfan yn Ynys Môn, waeth beth fo sefyllfa'r Ardoll.

- Cwblhau asesiadau pellach i bennu a fyddai'r incwm fyddai'n deillio o'r ardoll, sy'n cael ei glustnodi ar gyfer gwelliannau i'r gwaith o reoli cyrchfan, yn gwneud yn iawn am yr effeithiau negyddol cysylltiedig posibl.
- Cyflwyno'r Gofrestr Genedlaethol yn effeithiol ar gyfer darparwyr llety, a defnyddio data er mwyn rhoi asesiad mwy clir ar effeithiau'r Ardoll Ymwelwyr pe byddai'n cael ei gyflwyno.
- Ymgysylltu'n effeithiol gyda'r sector i wella'r gwaith o reoli cyrchfan a datblygu model ar y cyd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.
- Ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ddiffinio canfyddiadau'r ymgynghoriad yn glir, gyda'r bwriad i amlygu'r angen i adolygu agweddau ar ddeddfwriaeth, yn cynnwys trethu plant, a'r ddibyniaeth ar ddarparwyr llety i weinyddu'r Ardoll.
- Datblygu model ariannol clir ar gyfer incwm gros, costau gweinyddol a threfniadau sefydlu, incwm net a cyllid sydd wedi ei glustnodi.
- Cyfrannu'n weithredol at ymgynghoriad/adolygiad parhaus Llywodraeth Cymru ar y rheol 182 diwrnod.

Mae'n debygol y byddai unrhyw benderfyniad i fabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr yn y dyfodol yn digwydd mewn cyfnod o 2 flynedd, a bydd hynny'n cynnwys yr angen am ymgynghoriad a chyfnod o rybudd 1 blwyddyn i Awdurdod Cyllid Cymru.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a’r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☒Do
☐Naddo

| Os naddo, eglurwch pam: |
|---|

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi (**Atodiad B**).

Yn gryno, mae’n nodi:
Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg na materion economaidd-gymdeithasol, ar yr amod bod mesurau diogelu statudol yn cael eu gweithredu a bod y refeniw yn cael ei ail-fuddsoddi yn unol â'r Ddeddf.

Bydd penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau gwariant a monitro yn hanfodol wrth sicrhau'r buddion mwyaf posibl a lliniaru unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg—yn enwedig ar gyfer:

- Gweithwyr ifanc
- Ymwelwyr anabl
- Cymunedau Cymraeg

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi (**Atodiad B**).

Yn gryno, mae’n nodi:
Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg na materion economaidd-gymdeithasol, ar yr amod bod mesurau diogelu statudol yn cael eu gweithredu a bod y refeniw yn cael ei ail-fuddsoddi yn unol â'r Ddeddf.

Bydd penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau gwariant a monitro yn hanfodol wrth sicrhau'r buddion mwyaf posibl a lliniaru unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg—yn enwedig ar gyfer:

- Gweithwyr ifanc
- Ymwelwyr anabl
- Cymunedau Cymraeg

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar yr Economi wedi'i baratoi (**Atodiad C**).

Yn gryno, mae’n nodi:
Mae'n debygol y bydd Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn yn peri risg economaidd fach iawn, yn cynhyrchu refeniw lleol dibynadwy ac arwyddocaol, ac yn cynnig manteision hirdymor posibl os caiff y cronfeydd eu buddsoddi'n effeithiol. Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn cyd-fynd ag arfarniad cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan awgrymu effeithiau economaidd ymylol yn unig ochr yn ochr â ffrwd ariannu newydd sylweddol ar gyfer gwella cyrchfannau.

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Niwtral

## 8 Goblygiadau ariannol

Mae cyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau a thrawsnewid cynnyrch twristiaeth Ynys Môn i un sy'n fwy cynaliadwy ac wedi'i reoli'n dda yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Byddai cyflwyno’r Ardoll Ymwelwyr wedi darparu mwy na £1.5 miliwn o refeniw wedi’i glustnodi ar gyfer y gwaith o Reoli Cyrchfan, a helpu i leddfu’r effeithiau ar gymunedau yn ogystal â datblygu’r cynnig cyrchfan all Ynys Môn ei ddarparu. Mae’r argymhelliad i beidio a mabwysiadu’r Ardoll yn golygu nad oes adnoddau ychwanegol ar gael i fynd i’r afael â’r heriau o Reoli Cyrchfan, a bydd angen gwneud gwaith ymchwil pellach i benderfynu a yw’r refeniw sydd ei angen i reoli cyrchfannau’n well drwy’r Ardoll yn gwneud yn iawn am yr effeithiau negyddol.

## 9 Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad yr Ymgynghoriad
Atodiad B - Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb
Atodiad C - Asesiad o’r Effaith ar yr Economi

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Andy Godber, Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol |